Polisi a gweithdrefn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau

I ddiben y polisi hwn, mae 'ymddiriedolwr' yn cyfeirio at aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

Cefndir

Mae gwrthdaro buddiannau wedi bodoli erioed i ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn a'u hymgynghorwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'n syml y ffaith y bydd gan ymddiriedolwyr unigol, a'u hymgynghorwyr, amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft fel aelodau o'r cynllun neu fel uwch reolwyr y cyflogwr sy'n noddi neu fel swyddogion undeb llafur.

Mae dyletswydd lem ar ymddiriedolwyr i weithredu er lles aelodau a buddiolwyr y cynllun, ond nid yw hyn yn atal ymddiriedolwyr rhag cael rolau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau. Mae Atodiad 1 yn cynnwys gwahanol nodiadau cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau. Mae Atodiad 2 yn nodi'r gwahanol fathau o wrthdaro.

Rhaid i'r ymddiriedolwyr fod yn gallu adnabod gwrthdaro buddiannau a chael gweithdrefnau yn eu lle er mwyn rheoli'r rheini. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r weithdrefn y mae'r Bwrdd Pensiwn Lleol wedi ei mabwysiadu er mwyn gwneud hyn.

Polisi a gweithdrefn

Er mwyn i'r polisi hwn a'r weithdrefn hon weithio, mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno bod yn rhaid iddynt wneud y canlynol:

- cydnabod unrhyw wrthdaro buddiannau sydd ganddynt o bosibl;
- bod yn agored wrth ei gilydd ynglŷn ag unrhyw wrthdaro buddiannau sydd ganddynt o bosibl; mabwysiadu atebion ymarferol;
- cynllunio ymlaen llaw a chytuno sut y byddant yn rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau a allai godi.

Gan gadw'r amcanion hyn mewn cof, mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r gweithdrefnau a ganlyn:

1. Cadw cofrestr o fuddiannau ymddiriedolwyr a allai arwain at wrthdaro.

2 Cadw cofrestr o fuddiannau mewn perthynas ag ymgynghorwyr yr ymddiriedolwyr.

3. Bydd pob ymddiriedolwr ac ymgynghorydd i'r adran bensiynau yn llofnodi ffurflen flynyddol i gadarnhau bod yr wybodaeth sydd yn y gofrestr buddiannau'n gywir. Yna, caiff y gofrestr wedi'i diweddaru ei dosbarthu i bob ymddiriedolwr. Bydd y ddau ddigwyddiad yn cael eu hychwanegu at galendr digwyddiadau'r ymddiriedolwyr a ddosberthir gyda pob set o bapurau cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr.

4 Bydd y swyddog cyswllt aelodau'n nodi unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau ac yn hysbysu'r cadeirydd. Dylid rhoi gwybod i'r clerc hefyd fel y gall fod yn barod i roi sylwadau ynglŷn â'r ffordd orau o ymdrin â'r mater. Bydd y cadeirydd yn penderfynu ar y camau angenrheidiol ac yn rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr am unrhyw gamau a gymerwyd.

5 Bydd materion neu gynigion y GTA yr ymdrinnir â hwy yng nghyfarfodydd yr ymddiriedolwyr yn cael eu cyflwyno gan gynrychiolydd nad yw'n ymddiriedolwr, er enghraifft y Dirprwy Brif Swyddog Tân.

6 Rhaid i unrhyw ymddiriedolwr sy'n dymuno siarad o safbwynt y GTA ddatgan hyn yn eglur yn y cyfarfodydd a sicrhau bod hyn yn cael ei nodi yn y cofnodion.

7 Os oes ymddiriedolwr yn teimlo bod gwrthdaro buddiannau ganddo ef/hi, ymgynghorwr neu aelod o'r adran bensiynau mewn perthynas â phwnc penodol, rhaid iddo/iddo roi gwybod i'r swyddog cyswllt aelodau cyn y cyfarfod neu ddatgan hyn yn eglur yn y cyfarfod. Yna, dylai'r cadeirydd benderfynu a oes angen i'r unigolyn sydd â gwrthdaro adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar fater y gwrthdaro, neu os yw'n ymddiriedolwr, a ddylai ymatal rhag pleidleisio ynghylch mater y gwrthdaro. Os gwelir gwrthdaro o'r fath y tu allan i gyfarfod o'r ymddiriedolwyr bydd y cadeirydd yn ymgynghori â'r ymddiriedolwr annibynnol cyn gwneud penderfyniad. Os gwelir y gwrthdaro mewn cyfarfod o'r ymddiriedolwyr bydd y cadeirydd yn ymgynghori â'r ymddiriedolwyr eraill cyn gwneud penderfyniad. Fel hyn, gellir gwneud nodyn yn y cofnodion o'r gwrthdaro buddiannau a'r camau a gymerir.

8 Rhaid i unrhyw ymddiriedolwr nodi gwybodaeth na ddylid yn eu tyb nhw ei rhannu gyda chynrychiolwyr y GTA, a hysbysu ysgrifennydd y cynllun. Yna, bydd y swyddog cyswllt aelodau'n hysbysu'r ymddiriedolwyr, gan gynnwys yr ymddiriedolwr annibynnol, i geisio penderfyniad ganddynt p'un a ddylid cadw'r wybodaeth rhag cynrychiolwyr y GTA.

Atodiad 1 – Cyfarwyddyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau

Mewn nifer o godau ymarfer a chanllawiau a ryddhawyd ers Ebrill 2005, gan gynnwys y cyfarwyddyd ar wrthdaro buddiannau, mae'r rheoleiddiwr wedi darparu cyfarwyddyd i roi cymorth i ymddiriedolwyr reoli gwrthdaro buddiannau. Heblaw am gyfarwyddyd, cyfeirir at wrthdaro buddiannau yn y canlynol:

- **Cod ymarfer ar ariannu buddion wedi'u diffinio**
- **Cyfarwyddyd ar ddatganiadau cliriad**
- **Pecyn cymorth ymddiriedolwyr (www.trusteetoolkit.com)**

http://www.thepensionsregulator.gov.uk/guidance/guidance-conflicts-of-interest.aspx

http://www.thepensionsregulator.gov.uk/docs/conflicts-of-interest-summary.pdf

Atodiad 2 – Mathau o wrthdaro (egwyddorion cyffredinol)

Gellir cael egwyddor gyffredinol ynghylch gwrthdaro buddiannau yn achos yr Uchel-Lys Re Setliad Thompson [1986] pryd y daliodd y Llys:

'…rhaid i ddyn beidio â'i roi ei hun mewn sefyllfa pryd y mae dyletswydd a budd [personol] yn gwrthdaro neu
pan fo'i ddyletswydd tuag at un ohonynt yn gwrthdaro gyda'i ddyletswydd tuag at un arall, oni bai fod caniatâd penodol i hynny'

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfa pryd y gallai unigolyn ei gael ei hun mewn sefyllfa a allai olygu gwrthdaro buddiannau:

Enghreifftiau'n ymwneud â rôl (pan fo cyfrifoldebau ymddiriedolwr yn ymwahanu):

- mae ymddiriedolwr yn brif swyddog neu'n uwch weithiwr i'r cyflogwr sy'n noddi.
- mae unigolyn yn ymddiriedolwr i fwy nag un cynllun gyda'r un cyflogwr sy'n noddi.
- mae ymddiriedolwr hefyd yn gyfarwyddwr darparwr gwasanaethau i'r cynllun.
- mae ymddiriedolwr hefyd yn cael ei gyflogi gan ddarparwr gwasanaethau posibl i'r cynllun.
- mae ymddiriedolwr hefyd yn gynrychiolydd undeb llafur neu'n gynrychiolydd gweithwyr.

Enghreifftiau o sefyllfaoedd penodol (pryd y gallai dyletswyddau eraill ddylanwadu ar ganlyniad):

- mae'r cyflogwr sy'n noddi yn talu am weinyddiaeth ond mae'n ceisio lleihau costau; gallai'r nod grwydro oddi wrth amcan yr ymddiriedolwr i wella safonau gweinyddiaeth (o bosibl am bris uwch).

- mae'r gwasanaeth gweinyddu pensiynau'n cael ei wneud yn fewnol, ac mae'r rheolwr pensiynau'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth i un neu ragor o'r cynlluniau, yn ogystal â chynghori'r cyflogwr ar faterion cyfrinachol yn ymwneud â phensiynau.

- ymddiriedolwr yn ymwneud â thrafodion corfforaethol sy'n gysylltiedig â'r cyflogwr sy'n noddi, pryd y gallai buddiannau'r cynllun fel credydwr grwydro oddi wrth y buddiannau sy'n cronni i bartïon eraill i'r trafodion.

- mae ymddiriedolwr sydd â swydd o fewn y cyflogwr yn cael gwybodaeth sensitif am y cyflogwr, a gallai hynny gael effaith neu effaith bosibl ar y cynllun.

- pan drafodir opsiynau ynghylch telerau trosiant ar gyfer aelodau, yn enwedig rhai ynghylch cymudo pensiwn ar adeg ymddeol; pan fo'r ymddiriedolwyr yn debygol o gael eu cymell i sicrhau niwtraliaeth cost yn eang o fewn y cynllun, mae'n bosibl y byddai'r cyflogwr yn ffafrio ac yn annog telerau cymudo sy'n arwain at gostau disgwyliedig is.

- gallai ymddiriedolwr sy'n nesáu at ymddeol gael ei gymell gan opsiynau ffafriol i wella buddion ar lefel bersonol yn hytrach nag ystyried y goblygiadau'n ehangach.

- Buddsoddi i wella gweinyddiaeth y cynllun vs. Arbed arian. Mae cynrychiolwr y cyflogwr, a allai fod yn Ysgrifennydd Parhaol, swyddog cyllid neu gynghorydd lleol, yn ymwybodol y byddai system X yn gymorth i wella safonau cadw cofnodion ond byddai'n gostus i'w gweithredu. Byddai angen i'r adran neu'r awdurdod lleol dalu costau'r system newydd ar adeg pryd y mae pwysau mewnol ac allanol i gadw'r costau'n isel. Er mwyn talu costau'r system newydd, byddai angen i'r adran neu'r awdurdod lleol ddod o hyd i arian, efallai drwy ddefnyddio cyllideb a fwriadwyd ar gyfer rhywbeth arall. Gallai'r penderfyniad hwn fod yn amhoblogaidd gyda'r cyhoedd/trethdalwyr yn ehangach. Gallai gwrthdaro buddiannau godi pryd y mae cynrychiolydd cyflogwr y cynllun yn debygol o fod â rhagfarn wrth gyflawni ei swyddogaeth oherwydd ei fuddiannau a'i gyfrifoldebau deuol.

- Contractio swyddogaeth allan vs. Cadw swyddogaeth yn fewnol. Fel estyniad i'r enghraifft hon, mae cynrychiolydd sy'n aelod, ac sydd hefyd yn weithiwr cyflogedig os yw'r cyflogwr yn cymryd rhan, yn ymwybodol y byddai system X yn gymorth i wella safonau cadw cofnodion ond byddai'n golygu contractio allan swyddogaeth sy'n cael ei chyflawni'n fewnol ar hyn o bryd. Gallai gwrthdaro fod i'r cynrychiolydd sy'n aelod os yw'n debygol y byddai ganddo ragfarn wrth gyflawni ei swyddogaethau yn rhinwedd ei gyflogaeth.

- Cynrychioli ehangder yr aelodaeth vs. Cynrychioli buddiannau cul: Os yw cynrychiolydd sy'n aelod, ac sydd hefyd yn gynrychiolydd undeb llafur, wedi cael ei benodi i'r bwrdd pensiwn i gynrychioli holl aelodau cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, gallai gwrthdaro godi os nad yw ond yn gweithredu er lles ei undeb ac aelodau'r undeb heb gynnwys yr holl weithwyr proffesiynol/staff sydd yn y cynllun.

- Rhannu gwybodaeth gyda'r bwrdd pensiwn vs. Dyletswydd cyfrinachedd i'r cyflogwr. Mae gan gynrychiolydd y cyflogwr fynediad at wybodaeth yn rhinwedd ei gyflogaeth, a gallai hyn ddylanwadu neu oleuo penderfyniadau neu weithredoedd y bwrdd pensiwn. Bydd raid iddo ystyried a yw am rannu'r wybodaeth gyda'r bwrdd pensiwn oherwydd ei ddyletswydd cyfrinachedd i'w gyflogwr. Os yw'n penderfynu cadw'r wybodaeth mae hynny'n debygol o beryglu ei allu i gyflawni ei swyddogaethau fel aelod o'r bwrdd pensiwn, a byddai hyn yn golygu gwrthdaro buddiannau.

Ymddiriedolwyr

Nid yw'r rheoleiddiwr yn ystyried y dylai'r posibilrwydd o wrthdaro (o ganlyniad i swyddi eraill sydd gan yr ymddiriedolwr) atal penodi ymddiriedolwr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfiawnhau penodi ymddiriedolwr os yw'n debygol o arwain at wrthdaro difrifol neu hollbresennol. At hynny, rhaid cael cydbwysedd drwy'r amser rhwng y manteision o gael cymysgedd o ymddiriedolwyr sydd â rolau a chyfrifoldebau ehangach, a'r risg o wrthdaro a'r problemau o ran rheoli a gweinyddu'r cynllun sy'n debygol o ddeilio o ganlyniad i wrthdaro o'r fath.

Dyma feysydd posibl a allai arwain at wrthdaro buddiannau:

- negodi rhwng yr ymddiriedolwyr a'r cyflogwr sy'n noddi; a
- rheoli gwybodaeth gyfrinachol.

O ran y pwynt cyntaf, mae'r rheoleiddiwr wedi ei gwneud yn eglur ei fod yn disgwyl i ymddiriedolwr negodi ei sefyllfa'n ofalus iawn os yw'n credu y gallai fod yn gysylltiedig â'r ddwy ochr. Un opsiwn ar gyfer rheoli'r gwrthdaro buddiannau fyddai dirprwyo'r dyletswyddau i is-bwyllgor.

O ran yr ail bwynt mae'n bwysig nodi bod yr holl ymddiriedolwyr wedi llofnodi cytundeb cyfrinachedd yn ymwneud â gwybodaeth y GTA.

O ran ymddiriedolwyr yn rhannu gwybodaeth gyfrinachol ymddiriedolwyr gyda phartïon (er enghraifft y GTA, undebau llafur, aelodau eraill ayyb), mae'n bwysig cofio bod cyfrifoldeb sylfaenol ar bob ymddiriedolwr i weithredu ar ran y cynllun ac ni ddylid peryglu'r ddyletswydd hon drwy weithredu ar ran grwpiau eraill.

Ymgynghorwyr

Mae cyfrifoldeb proffesiynol ar bawb sy'n ymgynghorwyr i ymddiriedolwyr gynghori'r ymddiriedolwyr os oes unrhyw amgylchiadau'n codi pryd y maent o'r farn fod yna wrthdaro. Mae'r cyrff proffesiynol hefyd yn ymdrin â'r cyfrifoldebau a'r canllawiau hyn ar gyfer mynd i'r afael â nhw.